# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 5

GORFODI SAFONAU

## PENNOD 5

APELAU GAN YR ACHWYNYDD

*Apelau yn erbyn dyfarniad nad yw D wedi methu â chydymffurfio â safon*

### 100 Pwerau'r Tribiwnlys pan wneir apêl gan P

(1) Pan wneir apêl o dan adran 99, caiff y Tribiwnlys—

(a) cadarnhau dyfarniad y Comisiynydd, neu

(b) diddymu dyfarniad y Comisiynydd.

(2) Os yw'r Tribiwnlys yn diddymu dyfarniad y Comisiynydd (y "dyfarniad gwreiddiol"), rhaid i'r Tribiwnlys gyfarwyddo'r Comisiynydd i ddyfarnu o dan adran 73 fod D wedi methu â chydymffurfio â'r safon (y "dyfarniad newydd").

(3) Os yw'r Tribiwnlys yn cyfarwyddo'r Comisiynydd o dan is-adran (2), rhaid i'r Comisiynydd ddirymu'r hysbysiad penderfynu a'r adroddiad ar ymchwiliad a roddwyd o dan adran 73 mewn perthynas â'r dyfarniad gwreiddiol.

(4) Mae adran 73(3) a (4), a darpariaethau eraill y Mesur hwn, yn gymwys i'r dyfarniad newydd fel y maent yn gymwys i unrhyw ddyfarniad arall o dan adran 73.

(5) Rhaid i'r adroddiad ar ymchwiliad a roddir o dan adran 73(3) mewn perthynas â'r dyfarniad newydd gynnwys datganiad bod y Comisiynydd wedi gwneud y dyfarniad newydd i gydymffurfio â chyfarwyddyd gan y Tribiwnlys.

(6) I'r graddau y mae adrannau 77, 78, 79, 82 ac 84 yn gymwys i'r dyfarniad newydd, maent yn ddarostyngedig i adran 86 ond nid i adran 85.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 100. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 100 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I2** A. 100 mewn grym ar 7.7.2015 gan O.S. 2015/1413, **ergl. 3(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 100.